**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR CYDLYNU TROSOLWG A CHRAFFU a gynhaliwyd yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron / remotely via video conference ddydd Dydd Iau, 7 Tachwedd 2024**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Wyn Evans (Cadeirydd); Y Cynghorwyr Keith Evans, Marc Davies, Gwyn Wigley Evans, Chris James, Caryl Roberts, Elaine Evans, Rhodri Evans ac Amanda Edwards.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol; Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd; Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol; Rob Starr, Rheolwr Perfformiad ac Ymchwil; Timothy Bray, Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil Posibl; Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu; Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu a'r Cyfieithwyr.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Raymond Evans, Hugh Hughes a Gareth Lloyd.

(10.00 am - 12.00 pm)

**23 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. Ymddiheurodd y Cynghorydd Ceris Jones na fedrai ddod i'r cyfarfod.
2. Ymddiheurodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, na fedrai ddod i'r cyfarfod am ei fod yn cyflawni dyletswyddau eraill ar ran y Cyngor.
3. Ymddiheurodd y Cynghorydd Alun Williams, yr Aelod Cabinet, na fedrai ddod i'r cyfarfod.
4. Ymddiheurodd Hazel Lloyd-Lubran, Prif Weithredwr, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO), na fedrai ddod i'r cyfarfod.
5. Ymddiheurodd Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol, na fedrai ddod i'r cyfarfod.

**24 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir Aelodau am eu cyfrifoldeb personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig a materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol a darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ol Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011**

Dim.

**25 Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

None.

**<u>Cytunodd y Cadeirydd y byddai eitem 6 ar yr agenda sef Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y cyd CYSUR / CWMPAS Chwarter 1</u>**

**<u>2024/2025 yn cael ei ystyried nesaf am fod Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gael i gyflwyno'r eitem.</u>**

**26 Adroddiad Diogelu Grwpiau Gweithredol ar y cyd CYSUR/CWMPAS Ch 1 2024/2025**

Croesawyd Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad.

Dyma grynodeb o'r prif bwyntiau:

- ➢Yn ystod y chwarter hwn, aeth 274 o atgyfeiriadau ymlaen i gamau a oedd angen eu cymryd o dan Weithdrefnau Diogelu Plant. Roedd hyn yn gynnydd o gymharu â'r chwarteri blaenorol. Yn Chwarter 4, roedd angen i 196 o atgyfeiriadau fynd ymlaen i gamau a oedd yn cael eu cymryd o dan weithdrefnau diogelu.
- ➢ Cynhaliwyd 18 Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol yn ystod y chwarter. Roedd y rhain yn ymwneud â 31 o blant/pobl ifanc. Rhoddwyd 20 o blant ar y gofrestr yn ystod y chwarter.
- ➢ Cynhaliwyd 21 o gynadleddau adolygu yn ystod y chwarter ac roedd y rhain yn ymwneud â 33 o blant/pobl ifanc. Roedd 17 o blant/pobl ifanc yn parhau ar y gofrestr a chafodd 16 o blant/pobl ifanc eu tynnu oddi ar y gofrestr.
- ➢ Addysg oedd prif ffynhonnell yr atgyfeiriadau yn ystod y chwarter hwn.
- ➢ Yn ystod y chwarter hwn, mae'r ffordd yr ydym yn casglu ac yn adrodd ar y data wedi newid. Nid ydym bellach yn casglu nifer y cysylltiadau sydd gennym ar achosion agored, dim ond yr adroddiadau / atgyfeiriadau newydd a dderbynnir yr ydym yn eu casglu a allai fod mewn perthynas ag achosion newydd neu achosion sydd eisoes ar agor lle mae pryder newydd wedi'i nodi a'i gyfeirio at y gwasanaeth. Felly, o'r atgyfeiriadau newydd a gawsom yn y chwarter hwn (cyfanswm o 623), cynhaliwyd Trafodaeth Strategaeth ar 44% o'r atgyfeiriadau hynny. Aeth 14.3% ymlaen i Ymholiad Adran 47 ac aeth 4.98% ymlaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol.
- ➢ Cynhaliwyd 89 o ymholiadau Adran 47. Cynhaliwyd 72 o'r rheiny ar y cyd â'r Heddlu ac roedd 17 ohonynt yn rhai asiantaeth sengl.
- ➢ Y prif gategori o gam-drin a arweiniodd at Ymholiad Adran 47 oedd Cam-drin corfforol ac yna cam-drin / camfanteisio rhywiol. Esgeuluso oedd nesaf ac yna cam-drin emosiynol.
- ➢ Roedd canran y Cynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol a gynhaliwyd o fewn yr amserlen statudol 15 diwrnod yn 61.3% o'i gymharu ag 82.4% yn y chwarter blaenorol. Roedd gwelliant o ran cynnal Grwpiau Craidd o fewn yr amser ond roedd oedi pellach mewn perthynas â chynnal Cynhadledd Adolygu o fewn amser. Roedd amryw o resymau am yr oedi yn y cynadleddau nad oedd yn cael eu cynnal o fewn yr amser.

➢ O'r 16 o blant a ddatgofrestrwyd yn ystod y chwarter hwn, daeth 5 o blant yn rhai a oedd yn derbyn gofal ac roedd 11 yn parhau i dderbyn gofal a chymorth o dan y cynllun gofal a chymorth.
➢ Roedd 32 o blant ar y gofrestr amddiffyn plant ar ddiwedd Chwarter 1 (Mehefin 2024). Y prif ffactorau risg i'r plant/pobl ifanc ar y gofrestr oedd rhieni'n gwahanu, cam-drin domestig ac anawsterau iechyd meddwl y rhieni.

DIOGELU OEDOLION:
➢ Bu cynnydd yn yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd yn ystod y chwarter hwn (223). 216 oedd y ffigwr yn ystod y chwarter blaenorol a 204 oedd y ffigwr yn Chwarter 3.
➢ Yn ystod y chwarter hwn, yr heddlu oedd prif ffynhonnell yr atgyfeiriadau ac yna'r Awdurdod Lleol.
➢ Y categori cam-drin a adroddwyd amdano fwyaf yn y chwarter hwn oedd esgeulustod. Cam-drin emosiynol / seicolegol oedd nesaf ac yna cam-drin corfforol, cam-drin ariannol a cham-drin rhywiol.
➢ Mewn perthynas â'r holl gategorïau cam-drin, roedd mwy o fenywod yn ddioddefwyr o gymharu â dynion. Roedd nifer y dioddefwyr gwrywaidd yn isel ym mhob categori o gamdriniaeth ac eithrio Esgeulustod lle'r oedd nifer y dioddefwyr gwrywaidd yn uwch.
➢ Adroddwyd bod rhan fwyaf y cam-drin wedi digwydd yng nghartrefi'r bobl eu hunain a honnwyd mai perthynas / ffrind oedd yn gyfrifol am y cam-drin.

Dyma'r prif bwyntiau a godwyd fel rhan o'r drafodaeth:

- Wrth ymateb i sylw bod rhan fwyaf yr atgyfeiriadau Amddiffyn Plant yr oedd yr Awdurdod wedi'u derbyn oddi wrth yr Ysgolion, dywedodd Audrey Somerton-Edwards fod hyn yn gadarnhaol gan fod y plant wedyn yn weladwy a bod yr atgyfeiriadau priodol wastad yn cael eu gwneud.
- Cadarnhawyd bod gan yr Awdurdod 24 awr i ymateb i atgyfeiriad.
- Wrth ymateb i drafodaeth ynghylch cyflogau o fewn Gwaith Cymdeithasol, dywedodd y Swyddog Trosolwg a Chraffu wrth Aelodau'r Pwyllgor fod y Cynghorydd Ceris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach, wedi anfon llythyr at
  Dawn Bowden AS, y Gweinidog dros Ofal Cymdeithasol i ddatgan bod y Pwyllgor yn gwbl gefnogol i'r angen am Raddfa Gyflog Genedlaethol yn benodol ar gyfer graddedigion gwaith cymdeithasol a therapi galwedigaethol, gan godi proffil y sector gofal a rhoi cydnabyddiaeth i'r gweithwyr drwy eu cyflog.

Yn dilyn y drafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad canlynol:

**Argymhelliad:** Nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefel o weithgarwch o fewn yr Awdurdod Lleol

**Rheswm dros y penderfyniad:** fel bod trefniadau llywodraethu'r Awdurdod Lleol a'r asiantaethau sy'n bartneriaid yn cael eu monitro.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefel o weithgarwch o fewn yr Awdurdod Lleol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am gyflwyno'r wybodaeth ac am y gwaith rhagorol yr oedd y gwasanaeth yn ei wneud.
.

**27 Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 16 Medi 2024**

Croesawyd Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol, a Timothy Bray, Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil Posibl, i'r cyfarfod. Roedd Hazel Lloyd-Lubran, Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ymddiheuro na fedrai fod yn bresennol i gyflwyno'r adroddiad. Felly cyflwynodd Timothy Bray y wybodaeth yn ei habsenoldeb.

O dan Adran 35 o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, roedd yn ofynnol i'r Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y pŵer i graffu ar benderfyniadau a wnaed, neu gamau eraill a gymerir, gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ardal yr Awdurdod Lleol wrth arfer ei swyddogaethau.

Dyma'r prif bwyntiau a godwyd fel rhan o'r drafodaeth:

- Bu i'r Cadeirydd longyfarch y tîm am ddarparu Adroddiad Blynyddol y Cynllun Llesiant Lleol ar ffurf fideo gan nodi ei fod yn rhagorol.
- Bu i'r Cadeirydd longyfarch prosiect ARFOR am y gwaith yr oedd yn parhau i'w wneud.
- Cadarnhawyd y byddai'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfod ynglŷn â thaliadau tanwydd y gaeaf yn cael eu trosglwyddo i Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cadarnhaodd y swyddogion fod y grŵp yn ystyried newidiadau fel hyn o ddifri a'i fod yn ymateb i faterion o'r math hwn yn barhaus. Hefyd, nodwyd bod yr Is-grŵp Tlodi wedi'i longyfarch yn ddiweddar am ei waith. Yn benodol, roedd y dangosfwrdd caledi wedi'i nodi fel arfer da ar draws Cymru.
- Roedd yr Aelodau yn siomedig i nodi bod nifer yr ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ddiweddar yn isel. Bu i'r Aelodau ailadrodd eu pryderon bod ymgynghoriadau yn costio llawer o arian i sefydliadau yn y Sector Cyhoeddus.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad canlynol:
**Argymhelliad:**
Derbyn cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 16 Medi 2024.
**Rheswm dros y penderfyniad:**
Y Pwyllgor Craffu hwn sy'n cadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i dderbyn cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 16 Medi 2024 a diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu gwaith caled parhaus.

**28 Adroddiad Hunanasesu Drafft a'r Adroddiad Blynyddol o Berfformiad ac Amcanion Llesiant 2023/2024**

Croesawyd Rob Starr, Rheolwr Perfformiad ac Ymchwil, a Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad.

Cyflwynodd Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gyfundrefn berfformio newydd ar gyfer Prif Gynghorau yn seiliedig ar Hunanasesu. Bwriad y gyfundrefn berfformiad newydd yw adeiladu a chefnogi diwylliant lle mae cynghorau yn ceisio gwella a gwneud yn well yn barhaus ym mhopeth a wnânt, waeth pa mor dda y maent yn perfformio eisoes. Mae'r Ddeddf yn disgwyl y bydd cynghorau bob amser yn ymdrechu i gyflawni mwy a cheisio sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl a chymunedau lleol. Un ffordd o wneud hyn yw herio'r sefyllfa bresennol yn barhaus a gofyn cwestiynau ynghylch sut y maent yn gweithredu.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno 5 dyletswydd benodol ar gyfer Cynghorau:
- Y ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus
- Y ddyletswydd i ymgynghori ar berfformiad
- Y ddyletswydd i adrodd ar berfformiad
- Y ddyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel
- Y ddyletswydd i ymateb i adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel.

Mae hunanasesu yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na phrosesau, a disgwylir i awdurdodau lleol arfer ymagwedd wahanol at asesu eu perfformiad nag o'r blaen. Esboniodd y Swyddog y byddai angen mwy o hunan-fyfyrio i sicrhau hyn.

Ers mis Ebrill 2024, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn cynnal trydedd rownd y broses Hunanasesu, ac mae'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu wedi chwarae rhan ganolog ynddi. Cynhaliwyd gweithdy gyda'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 25 Ebrill i gofnodi safbwyntiau Aelodau ar berfformiad y Cyngor a chyfleoedd i wella. Mae amserlen lawn o'r

gweithgareddau a gynhaliwyd i gefnogi Hunanasesu yn 2023/24 ynghlwm yn Atodiad 1, a hynny er gwybodaeth.

Ers hynny, defnyddiwyd y dystiolaeth a gasglwyd i gynhyrchu Adroddiad Hunanasesu, a welir yn Atodiad 2. Dyma'r prif allbwn yn y broses Hunanasesu ac mae'n cyflwyno'r modd y mae'r Cyngor yn perfformio ar hyn o bryd a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd wrth symud ymlaen.

Mae'r Adroddiad Hunanasesu ar gyfer 2023/24 yn cyflawni gofynion y canlynol:

• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – i osod ac adolygu cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol
• Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – y ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus, i ymgynghori ar berfformiad, i adrodd ar berfformiad, i drefnu asesiad o berfformiad gan banel ac i ymateb i adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel.

Yn dilyn adborth cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru a chymheiriaid, mae fformat tebyg wedi'i gadw ar gyfer eleni i helpu i ledaenu negeseuon allweddol a'u cadw'n gryno, fel y gofynnodd Llywodraeth Cymru. Mae nifer o welliannau wedi eu gwneud eleni i gryfhau'r adroddiad.

Esboniodd Rob Starr y byddai'r Adroddiad Hunanasesu yn mynd gerbron y Cabinet ar 3 Rhagfyr, cyn y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Gweinidogion, Estyn, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Dyma'r prif bwyntiau a godwyd fel rhan o'r drafodaeth:

- Gofynnodd un o'r Aelodau i'r Swyddogion ystyried pobl sy'n lliwddall wrth gyhoeddi dogfennau yn y dyfodol. Awgrymodd y Swyddog y gellid cwrdd â'r Cynghorydd y tu allan i'r cyfarfod i drafod hyn ymhellach.
- Awgrymodd un o'r Aelodau y dylai'r system Clic gynnwys adran i adael sylwadau / canmoliaeth ar ôl i dasg/cais gael ei gwblhau.
- Cyfeiriodd un o'r Aelodau at Ran 6 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau ac yn benodol at yr adran am fod yn agored a thryloyw. Dywedodd fod angen i'r Awdurdod fod yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd ar bob adeg. Cadarnhaodd y swyddog fod y broses yn cael ei dilyn yn ofalus.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor dderbyn Adroddiad Hunanasesu 2023/24 gan gynnwys yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ac Amcanion Llesiant.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i dderbyn Adroddiad Hunanasesu 2023/24 gan gynnwys yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ac Amcanion Llesiant.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am gyflwyno'r adroddiad yn y cyfarfod ac am eu gwaith caled parhaus.

**29** **Hunanwerthuso trefniadau craffu**

Yn 2018, cytunwyd y byddai'r Swyddogion Craffu yn cynnal adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau Trosolwg a Chraffu yng Nghyngor Sir Ceredigion ac y byddai hyn yn cael ei wneud bob blwyddyn yn y dyfodol.

Adolygwyd y broses yn 2020 a chytunwyd i wneud y canlynol: a) Parhau i gynnal yr arolwg yn flynyddol; b) Lleihau nifer y cwestiynau gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad; c) Adolygu fformat yr adroddiad, cyfuno'r ymatebion Cymraeg a Saesneg, a chyfieithu'r ddogfen yn ei chyfanrwydd.

Ar gyfer adolygiad 2023-24, gwahanwyd ymatebion yr Aelodau Cabinet a'r Aelodau Craffu. Roedd ymatebion yr Aelodau Craffu i'r cwestiynau a ofynnwyd i'w gweld yn Atodiad A (11 o ymatebion). Roedd ymatebion yr Aelodau Cabinet i'w gweld yn Atodiad B (8 o ymatebion). Cafwyd cyfanswm o 19 o ymatebion, a oedd yn gynnydd o gymharu â 2023 a 2021. Derbyniwyd cyfanswm o 15 o ymatebion yn 2023. Roedd hyn yr un faint â nifer yr ymatebion a dderbyniwyd yn 2021 ond roedd yn ostyngiad o'i gymharu â'r 25 ymateb a dderbyniwyd yn 2020. Ni chynhaliwyd adolygiad yn 2022 oherwydd yr etholiadau. Ni ddatgelir enwau aelodau.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhellion canlynol.

**ARGYMHELLION:**

1. Ystyried yr ymatebion a ddaeth i law o'r holiadur hunanwerthuso (atodiad A a B) a nodi unrhyw feysydd i'w gwella os oes angen.
2. Bydd hyfforddiant Craffu ar gyfer Aelodau yn cael ei drefnu yn ystod mis Tachwedd/Rhagfyr 2024

Yn dilyn awgrym gan un o'r Aelodau, cytunwyd y dylai Arweinwyr y Grwpiau annog eu haelodau i gwblhau'r holiadur hunanwerthuso yn y dyfodol.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad. Diolchodd y Cadeirydd i Lisa Evans am gyflwyno'r wybodaeth.

**30** **Cadarnhau cofnodion Cyfarfod Blaenorol ac unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion hynny**

**CYTUNWYD** i gadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 12 Medi 2024 yn gywir. Nid oedd dim materion yn codi o'r cofnodion hynny.

**31** **Rhaglen Flaen Ddrafft**

Bu i Gadeirydd, Is-gadeirydd neu Swyddog Trosolwg a Chraffu pob Pwyllgor ddarparu gwybodaeth yn eu tro am Flaenraglenni Gwaith eu Pwyllgorau.

Yn ystod y drafodaeth, cytunwyd i ychwanegu'r canlynol at y Flaenraglen Waith:

1. Gweithwyr Asiantaeth a Recriwtio.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Aelodau am ddod i’r cyfarfod, i’r Swyddogion a’r Aelodau Cabinet am gyflwyno’r adroddiadau ac i’r cyfieithwyr, Lisa Evans a Dwynwen Jones am eu cymorth yn ystod y cyfarfod.

**32 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd ei fod er sylw brys y Pwyllgor**

**Dim.**

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 16 Ionawr 2025**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**